

Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198



Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrecsam
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580

FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher*)

mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk / mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Gorffennaf 2022

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

O fis Medi 2022 ymlaen bydd pob plentyn yn y dosbarth Derbyn yn cael cynnig prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd yr uchelgais o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn llwglyd tra yn yr ysgol.

Mewn ymateb i'r cynnydd ddiweddar yn y gost-o-fyw, mae Llywodraeth Cymru a Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwmo i weithredu'r cynllun hwn yn gyflym a gofynwn am eich amynedd wrth i ni feithrin y gallu i sicrhau gweithrediad graddol llwyddiannus a gweithio tuag at gyflwyno'r ysgol gyfan yn raddol dros y tair blynedd nesaf.

Gobeithiwn ehangu'r cynnig i ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 erbyn Ebrill 2023; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn fuan. Mae ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio'r system Parent Pay, sy'n galluogi rhieni i archebu cinio ar gyfer eu plentyn/plant ymlaen llaw. Er y bydd holl blant yn y dosbarth Derbyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, bydd angen archebu'r pryd ymlaen llaw drwy'r system hon. Mae rhagor o wybodaeth ar y system Parent Pay a'r broses archebu pryd i ddilyn.

Hoffem eich atgoffa fod Llywodraeth yn dyrannu'r cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar gymhwysedd i brydau ysgol am ddim ar sail incwm. Er mai'r bwriad yw cael cynnig cynhwysol o brydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgol gynradd o fewn y tair blynedd nesaf, mae'n hynod o bwysig fod rhieni sydd â hawl i fudd-daliadau a thaliadau cymorth yn gwneud cais i'r Awdurdod Lleol os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Bydd gwneud y cais hwn yn caniatáu i rieni cymwys gael mynediad at arian i'w helpu tuag at gostau gwisg ysgol ac offer eu plant, a bydd hefyd yn sicrhau fod ein hysgol yn derbyn y swm cywir o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Dim ond y teuluoedd sy'n derbyn y budd-daliadau a thaliadau cymorth cymwys a all gael mynediad at y cyllid hwn, a bydd angen i chi wneud cais am brydau ysgol am ddim yn gyntaf. Sicrhewch os yw eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd a/neu unrhyw fudd-daliadau eraill cysylltiedig, mewn unrhyw flwyddyn ysgol gynradd, **ni** chaiff y rhain eu heffeithio. Rydych ond angen gwneud cais newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau a thaliadau cymorth cymwys, **a heb wneud cais ar gyfer eich plentyn yn flaenorol**. Ym mwyafrif yr achosion, dyma rieni plant sydd ar fin symud i ddosbarth Derbyn.

Mae'r meini prawf a'r ffurflen gais am brydau ysgol am ddim tu allan i'r 'cynnig cynhwysol' ar-lein ar <https://www.wrecsam.gov.uk/service/prydau-ysgol/prydauysgolamddim>. **Cofiwch, rydych ond angen gwneud cais newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau a thaliadau cymorth cymwys, a heb wneud cais ar gyfer eich plentyn yn flaenorol.**

Gellid dod o hyd i'r ffurflen gais ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n helpu rhieni cymwys gyda chostau gwisg ysgol ac offer plant, yma <https://www.wrecsam.gov.uk/service/grant-datblygu-disgyblion>

Diolch

Osian Jones (Pennaeth)